Panel Ymgynghorol Strategaeth Coetir

Bywgraffiadau Byr o'r Aelodau: Ionawr 2007 - Rhagfyr 2011

Nigel Ajax-Lewis MBE	Fy swydd bresennol yw Uwch Swyddog Cadwraeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru. Mae gennyf gyfrifoldeb penodol dros faterion bioamrywiaeth. Bûm yn Rheolwr Cadwraeth gydag Ymddiriedolaeth Naturiaethwyr Swydd Berks, Bucks a Rhydychen. Rwyf yn gyn-Gadeirydd Cymdeithas Cadwraethwyr Natur Prydain. Derbyniais MBE am fy ngwasanaeth i gadwraeth natur yn Ne a Gorllewin Cymru ym mis Mehefin 2005.
Roger Cooper	Rwyf wedi gweithio yn y sector coedwigaeth ers 40 mlynedd. Dechreuais fy ngyrfa yn Seland Newydd lle bûm yn gweithio fel economegydd i Wasanaeth Coedwig Seland Newydd. Ym 1972 fe symudais i'r Ysgol Gwyddorau Amaethyddiaeth a Choedwigaeth ym Mhrifysgol Cymru, Bangor lle bûm yn gweithio hyd nes i mi ymddeol yn 2004. Roeddwn yn Bennaeth yr Ysgol o 1997 hyd 2004. Mae fy niddordebau dysgu ac ymchwil yn cynnwys marchnata ac economeg cynhyrchion coedwig, y fasnach ryngwladol mewn cynhyrchion coedwig, a pholisi coedwigaeth y DU ac Ewrop. Yn 2005 bûm yn cydlynu sefydlu Grŵp Arweinyddiaeth Partneriaeth Busnes Coedwig Cymru ac rwyf ar hyn o bryd yn gwasanaethu fel aelod. Rwyf yn cadeirio Panel Dehongli UKWAS.
Oliver Combe	Rwy'n gweithio fel ' rheolwr cyflenwi a phrynu' i 'BSW Timber' , a golyga hyn prynu dros 300,000 tunnell y flwyddyn o foncyffion ar gyfer ddwy felin llifio BSW yng Nghymru sydd wedi eu lleoli yn Y Bontnewydd ar Wy a Senghennydd. Yn ogystal â hyn rwyf yn cydlynu gwerthiant cyd-gynnyrch y ddwy felin lifio i amrywiaeth o farchnadoedd. Hefyd rwy'n aelod o bwyllgor cyswllt coetiroedd preifat / CC. Rwyf wedi gweithio i BSW dros gyfnod o 10 mlynedd ar ôl dechrau fel rheolwr dan hyfforddiant, a chyn hyn fe weithiais fel contractwr coedwigaeth a chynaeafu i gynaeafu BSW / rheoli coedwig Shotton ac yna fferm goed Nadolig. Mae gennyf HND yng Nghoedwigaeth a gradd yn Naearyddiaeth. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn cynhyrchu coed masnachol, coedwriaeth, rheoli bywyd gwyllt a chynhyrchu coed Nadolig. Rwy'n gefnogwr brwd o rôl choedwigaeth coniffer masnachol yn natblygiad cynaliadwy.
Dr John Edington	Rwyf wedi gweithio fel Darlithydd Swoleg, Uwch Ddarlithydd Swoleg a Chyfarwyddwr Astudiaethau Amgylcheddol yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd ac ar hyn o bryd rwyf yn Diwtor Rhan-Amser ar faterion amgylcheddol yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Prifysgol Caerdydd. Rwyf wedi gwasanaethu ar amryw o Bwyllgorau'r Cyngor Gwarchod Natur ac ar Bwyllgorau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Naturiaethwyr Morgannwg a'r Ymddiriedolaeth Adar Gwyllt.
Helena Fox	Rwyf yn Ymgynghorydd ym maes Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Bûm gynt yn Uwch Reolwr Menter Gymdeithasol / Cymuned ac Addysg yn Groundwork Caerffili. Fy mhrif ddiddordeb yw addysg a manteision dysgu yn yr awyr agored. Rwyf wedi gweithio fel addysgwr amgylcheddol ers naw mlynedd bellach. Rwyf yn cadeirio'r Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu, sy'n adrodd i'r PYSC. Rwyf yn eistedd ar Fwrdd Prosiect Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rory Francis	Fy swydd bresennol yw Swyddog Materion Cyhoeddus Coed Cadw (The Woodland Trust in Wales). Bûm gynt yn gweithio i Gymdeithas Eryri a Chyfeillion y Ddaear Cymru. Rwyf yn un o Ymddiriedolwyr Cyswllt Amgylcheddol Cymru a Menter y Moelwyn. Rwyf hefyd yn un o Lywodraethwyr Ysgol Tanygrisiau.
Dr Alun Gee	Treuliais yr 20 mlynedd ddiwethaf mewn amryw o swyddi rheoli gweithredol gyda'r Awdurdod Dŵr, yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd fy swyddi'n cynnwys Rheolwr Dŵr, Rheolwr Strategaeth a Chyfarwyddwr Dros Dro Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Bûm yn aelod o lawer o bwyllgorau coedwigaeth, rhai ar lefel Prydain Fawr/Y Deyrnas Unedig, Is-Bwyllgor Amgylcheddol y Pwyllgor Ymgynghorol Coed Cartref, y Pwyllgor Cydlynu Ymchwil Coedwigaeth, a'r Grŵp Rhynglywodraethol ar Gnydau Egni a'i is-grŵp ymchwil a datblygu. Yng Nghymru bûm yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Cymru y Comisiwn Coedwigaeth am 4 blynedd.
Sue Gittins	Roeddwn yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cymdeithas y Cerddwyr Cymru, ac yn ystod y cyfnod hwn fe ddatblygais gynlluniau cerdded i hybu iechyd a gwyliau cerdded. Roeddwn yn aelod o Weithgor Cerdded a Beicio Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rwyf wedi treulio 9 mlynedd fel aelod wedi'i benodi o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac yn ystod yr un cyfnod rwyf wedi cynrychioli'r holl Barciau Cenedlaethol ar Uned Weithredol Cyngor y Parciau Cenedlaethol. Roeddwn hefyd yn aelod o Grŵp Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Bywyd Gwyllt Brycheiniog.
David Jenkins MBE	Fy swydd bresennol yw Cyfarwyddwr Coed Cymru. Cyn hyn cefais yrfa lwyddiannus ym maes rheoli dŵr, gan arbenigo mewn rheoleiddio a gwella pysgodfeydd, adfer cynefinoedd a rheoli llygredd. Ers ymuno â Choed Cymru rwyf wedi ehangu ei gylch gwaith i gynnwys cynhyrchion coed a thanwyddau coed. Mae gennyf dros 30 mlynedd o brofiad ym maes coedwigaeth a rheoli adnoddau naturiol ac mae gennyf ddiddordeb yn y diwydiant coedwigaeth a materion amgylcheddol.
John Lloyd Jones OBE	Rwyf yn ffermwr/perchennog tir yng Ngwynedd. Cefais fy mhenodi'n Gadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2000 ac rwyf hefyd yn aelod o'r Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur. Rwyf yn gyn-aelod o wahanol Bwyllgorau a Byrddau, gan gynnwys Bord Gron y DU ar Ddatblygu Cynaliadwy, Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru y Comisiwn Coedwigaeth, Cadeirydd Gweithgor Cig Oen a Chig Eidion Strategaeth Bwyd Cymru, Cadeirydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) (1993-1998), Cadeirydd Pwyllgor Seneddol, Defnydd Tir ac Amgylcheddol yr NFU ar gyfer Cymru a Lloegr, Aelod o Barc Cenedlaethol Eryri, Aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Diogelu Amgylchedd Cymru ac o Bwyllgor Cymreig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
Tim Kirk	Fy swydd bresennol yw Rheolwr Prynu Coedwigoedd a Thir gyda Chwmni Coedwigaeth Tilhill yn y Bala. Rwyf yn Gadeirydd y Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwig - Cymru. Rwyf hefyd wedi eistedd ar nifer o bwyllgorau, gan gynnwys Pwyllgor Cludiant Coed Cymru, Pwyllgor Cyswllt Asiantiaid Tir/Undebau Amaethwyr Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a'r Pwyllgor Cyswllt Coetiroedd Preifat. Mae fy niddordebau yng nghefn gwlad yn ymestyn i ffermio, defnydd tir a choedwigaeth, yn enwedig defnydd tir ehangach megis gwaith cadwraeth. Rwyf yn berchen ar ddau goetir yng Nghymru sy'n mynd â llawer o'm hamser hamdden.

Bernard Llewellyn	Mae fy nheulu yn ffermio fferm fynydd 200 erw ger Castell Carreg Cennen yn nwyrain Sir Gâr, o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae 50 erw o'r fferm o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Rwyf ar hyn o bryd yn Gadeirydd Bwrdd Materion Gwledig NFU Cymru. Cynrychiolaf NFU Sir Gâr ar Bwyllgor Cyswllt Bannau Brycheiniog ac NFU Cymru ar Grŵp Ymgynghorol Rheoli Tir Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Rwyf yn aelod o Gyngor Cymru y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar. Cynrychiolaf Amaethyddiaeth y DU ar Grŵp Ymgynghorol y Comisiwn Ewropeaidd ar Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd.
Kath McNulty	Rwyf ar hyn o bryd yn Rheolwr Cenedlaethol ConFor yng Nghymru. Cyn hyn, roeddwn yn gweithio i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynghori ar ymwneud cymunedol ac yn rheoli prosiect i adfer coetiroedd hynafol. Rwyf yn frwd o blaid pren wedi'i dyfu gartref a'r rhan gynyddol y mae angen i goedwigaeth ei chwarae mewn byd sy'n prysur rhedeg allan o olew.
Hilary Miller	Rwyf yn gweithio ar hyn o bryd fel Uwch Swyddog Polisi Defnydd Tir gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Rhan bwysig o'm gwaith yw ymdrin â materion defnydd tir gwledig ehangach, gan gynnwys amaethyddiaeth a datblygu gwledig, a chredaf fod angen i goetiroedd a choedwigaeth gael eu hintegreiddio'n well ag agweddau eraill ar reoli tir. Mae gennyf brofiad o gynhyrchu dogfennau polisi, comisiynu a rheoli prosiectau ymchwil, dadansoddi problemau, ceisio atebion a rhoi cyngor ymarferol.
Philippe Morgan	Mae gennyf brofiad helaeth o reoli coedwigoedd, o blanhigfeydd conwydd mawr i goetiroedd fferm ar draws ardal ddaearyddol eang yng Nghymru. Rwyf wedi gweithio yn y sector diwydiannol i Shotton Paper plc, yn y sector rheoli coedwigoedd i Tilhill ac erbyn hyn fel menter fach i ganolig a chyda chwmni cydweithredol, Sustainable Forest Management a SelectFor. Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio i ehangu'r rhwydwaith o gellïoedd ymchwil sydd gan yr Association Futaie Irrégulière (AFI) ar draws Ewrop.
Yr Athro Colin Price	Rwyf yn Athro Economeg Amgylcheddol a Choedwigaeth yn yr Ysgol Gwyddorau Amaethyddol a Choedwigaeth ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Rwyf yn ymchwilio ac yn dysgu'n bennaf yn y maes hwn, a hefyd ym meysydd cynllunio tirwedd a gweithgareddau hamdden yng nghefn gwlad.
Dr Tim Stowe	Bûm yn Gyfarwyddwr Cymru y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ers 1997. Dechreuais weithio ym maes cadwraeth natur i'r Gymdeithas ym 1977, yn ei phencadlys yn Swydd Bedford, cyn symud i'r Alban i redeg Swyddfa Ranbarthol y Gymdeithas. Rwyf hefyd wedi gwasanaethu ar nifer o Grwpiau Rhanddeiliaid y Llywodraeth megis Farming Futures, tir comin DEFRA, dangosyddion datblygu cynaliadwy, a'r Strategaeth Amgylcheddol. Rwyf yn un o Ymddiriedolwyr Cyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol ac yn Gadeirydd paneli grant Enfys (Cronfa Cyfleoedd Newydd), Cleanstream (Cronfa Cyfleoedd Newydd), a'r Cynllun Ailgylchu Strategol (Cynulliad ac Amcan 1).
Celia Thomas	Rwyf bellach yn rhedeg fferm, gan gynhyrchu cig eidion o yr bach o wartheg Dexter. Mae gennyf radd mewn Botaneg a Swoleg a hyn sydd wedi ysgogi fy niddordeb mewn coetiroedd. Dechreuais ymddiddori mewn rheoli coetiroedd pan oeddwn yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt leol ac yna treuliais ychydig o flynyddoedd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn ail-hysbysu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Wedyn hyfforddais fel athrawes wyddoniaeth ac ar ôl dysgu am sawl blwyddyn ymgymerais â'm swydd bresennol fel Swyddog Coetiroedd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ym 1992. Rwyf wedi ymrwymo i greu cefn gwlad ffyniannus sy'n cynnig ffordd gynaliadwy o fyw i bobl leol ac sy'n cynnal y bywyd gwyllt amrywiol a drysorwn fel rhan o'n treftadaeth.

Bob Vaughan	Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Rwyf wedi gweithio o fewn y diwydiant dŵr a'r sector amgylcheddol ers 23 blynedd. Yn ystod y cyfnod hwn rwyf wedi dal nifer o swyddi rheoli uwch. Mae'r rhain wedi rhoi profiad helaeth i mi ym meysydd cynllunio strategol a thymor-hir, cyd-drafod, rhwydweithio, penderfynu ar bolisi a datblygu, yng Nghymru ac ar draws y DU. Rwyf ar hyn o bryd yn cadeirio Gweithgor Cymru ar Ddraeniad Cynaliadwy ac yn aelod o Bartneriaeth Coed Cymru.
Gareth Price (Sylwedydd)	Rwyf yn weithredwr datblygu busnes gyda'r Adran Menter, Arloesedd a Rhwydweithiau ac rwyf yn rhoi cymorth technegol penodol i fusnesau coed a'r sector coed yng Nghymru. Rwyf hefyd yn rheoli gweithgareddau Partneriaeth Busnes Coedwig Cymru, corff strategol a arweinir gan ddiwydiant.